



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru Crynodeb Asesiad Effaith Integredig

Teitl y cynnig: Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd

Adran: Yr Adran Tai ac Adfywio

Y Gweinidog sy'n gyfrifol: Julie James AS, Y Gweinidog Newid Hinsawdd

Dyddiad cychwyn: Mehefin 2023

Cyswllt ebost: [homelessnesspolicy @llyw.cymru](mailto:homelessnesspolicy@llyw.cymru)

Pa gamau gweithredu y mae llywodraeth cymru yn eu hystyried a pham?

Cafodd y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (y Grŵp) ei sefydlu yn 2019 er mwyn rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ar y camau sydd angen eu cymryd i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Argymhellodd y byddai fframwaith canlyniadau digartrefedd yn gosod cyfeiriad strategol clir er mwyn atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd ar gyfer yr holl wasanaethau cyhoeddus, tai a darparwyr cymorth yng Nghymru.

Gan adeiladu ar waith ac argymhellion y Grŵp a'n [Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd](#) a gyhoeddwyd yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [Gynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd \(y Cynllun Gweithredu\)](#) ym mis Tachwedd 2021. Mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi'r camau gweithredu lefel uchel y bydd Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn eu cymryd dros y pum mlynedd nesaf i roi diwedd ar ddigartrefedd. Mae'r camau gweithredu hyn yn nodi'r elfennau allweddol sydd eu hangen i sicrhau bod digartrefedd yn rhywbeth prin, byrhoedlog ac na fydd yn cael ei ailadrodd. Maent yn cydnabod pwysigrwydd cyffredinol gwaith partneriaeth hefyd. **Un o'r camau gweithredu allweddol yw datblygu Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd newydd sy'n nodi'r canlyniadau hirdymor o roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru a mesur cynnydd yn erbyn y canlyniadau hyn.**

Mae'r Fframwaith Canlyniadau hwn yn eistedd o fewn cyd-destun y nodau llesiant i Gymru, sy'n crynhoi llawer o'r ffactorau strwythurol a all ddylanwadu ar ddigartrefedd ac sy'n berthnasol i bob sector llywodraeth.

Tymor hir

Bydd y Fframwaith Canlyniadau yn cael effaith hirdymor ar fonitro'r gwasanaethau tai a digartrefedd a ddarperir. Cafodd ei ddatblygu i ddangos effaith y camau gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu a'r cynnydd yn eu herbyn, ac i gynyddu atebolrwydd pob rhanddeiliad sydd â rôl i'w chwarae yn y gwaith o roi diwedd ar ddigartrefedd. Bydd yn hollbwysig i'n helpu i ddiffinio beth sy'n "dda" a mesur cynnydd pob un ohonom wrth gyflawni ein nod hirdymor o atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.

Mae'r Fframwaith yn cyfrannu'n uniongyrchol at fonitro cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiad y [Rhaglen Lywodraethu](#) i **"Ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu'n gyflym"**.

Un her benodol a nodwyd wrth ddatblygu'r Fframwaith Canlyniadau yw sut mae dangos tystiolaeth o rai o'r canlyniadau arfaethedig yn y dyfodol agos. Yn achos rhai o'r canlyniadau arfaethedig, ni chesglir data ar hyn o bryd ac mae angen gwneud newidiadau i gasgliadau data presennol yn achos rhai o'r canlyniadau eraill. Cafodd y Fframwaith ei ddatblygu drwyddo draw gan ymgysylltu â swyddogion yn Is-adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru er mwyn cael eu barn arbenigol ar ymarferoldeb casgliadau data yn y dyfodol.

Bydd yr ymgynghoriad ffurfiol ar y Fframwaith Canlyniadau arfaethedig yn ceisio barn ac arbenigedd rhanddeiliaid er mwyn canfod a yw'r canlyniadau arfaethedig a'r dangosyddion

data yn addas at y diben, ac a oes unrhyw gasgliadau data ar gael ar hyn o bryd nad yw swyddogion yn ymwybodol ohonynt a allai helpu i fesur cynnydd.

Mae'r broses o ddatblygu'r Fframwaith Canlyniadau hefyd wedi adlewyrchu'r ymateb trawslywodraethol sydd ei angen i gefnogi ein huchelgeisiau i atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd. Felly, bydd cryfhau gwaith trawslywodraethol a gwaith partneriaeth yn hanfodol ac mae hyn yn cysylltu â gwaith parhaus i ddiwygio polisi a deddfwriaeth digartrefedd yn unol ag ymrwymiad ein Rhaglen Lywodraethu. Felly, cydnabyddir y bydd angen i'r Fframwaith Canlyniadau esblygu dros amser er mwyn adlewyrchu unrhyw ddyletswyddau deddfwriaethol newydd a nodir yn sgil y broses ddiwygio ehangach hon.

Atal

Mae ein gweledigaeth graidd - fel y nodir yn ein Cynllun Gweithredu, y Rhaglen Lywodraethu a'r Fframwaith Canlyniadau - yn seiliedig ar ffocws cryf ar ymyrryd yn gynnar ac atal. Mae'r Fframwaith Canlyniadau yn cynnwys **chwe chanlyniad strategol cyffredinol**, a gefnogir gan **24 o ganlyniadau manwl** a **44 dangosyddion data** ategol a fydd yn cymryd camau sylweddol tuag at fesur cynnydd tuag at ein uchelgais hirdymor i rhoi diwedd ar ddigartrefedd.

Mae'r canlyniadau strategol yn adlewyrchu ein gweledigaeth i roi diwedd ar ddigartrefedd a lle na ellir ei atal, dylai fod yn brin, yn fyrhoedlog ac na ddylai gael ei ailadrodd. Mae'r canlyniad strategol '*Prin*' yn canolbwyntio'n benodol ar fesurau ataliol; Mae'r canlyniad strategol '*Byrhoedlog*' yn canolbwyntio ar bontio i ailgartrefu cyflym a'r canlyniad strategol '*Ddim yn Digwydd Eto*' yn canolbwyntio ar gamau atal wedi'u targedu. Mae'r canlyniadau strategol eraill - '*Gweithlu*', '*Gwasanaethau cyhoeddus*', a '*Dull sy'n canolbwyntio ar y person*' - yn adlewyrchu themâu allweddol ac egwyddorion polisi ein Cynllun Gweithredu.

Diagram 1: Canlyniadau Strategol Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd



Integreiddio

Un o egwyddorion polisi craidd y Cynllun Gweithredu yw bod mynd i'r afael â digartrefedd a'i atal yn fater gwasanaethau cyhoeddus – yn hytrach na dim ond yn 'fater tai'. Felly, mae gan wasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector rôl i'w chwarae er mwyn cyflawni ein nod hirdymor o roi diwedd ar ddigartrefedd. I wneud hyn, mae angen i ni fynd i'r afael â phroblemau strwythurol craidd fel tlodi ac anghydraddoldeb. Mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn flaenoriaeth draws-sector sy'n berthnasol i iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg, cyfiawnder troseddol, gwasanaethau cymunedol a'r economi ehangach. Mae camau gweithredu allweddol y Cynllun Gweithredu yn cydnabod hyn ac yn adlewyrchu'r ffaith bod angen i bob gwasanaeth cyhoeddus ymateb.

Fel y nodir yn **Niagram 1**, mae Canlyniad Strategol 1 'Prin: *Caiff pobl eu hatal rhag dod yn ddigartref yn y lle cyntaf mor gynnar â phosibl*' a Chanlyniad Strategol 5 '*Mae pob gwasanaeth cyhoeddus yn gweithio'n effeithiol i roi diwedd ar ddigartrefedd*' yn adlewyrchu'r uchelgeisiau hyn.

Bydd atebolrwydd a gwaith partneriaeth, felly, yn bwysig er mwyn cyflawni ein nod. Rydym wedi datblygu cydberthnasau gwaith agos o fewn Llywodraeth Cymru. Mae Bwrdd Rhaglen Ddeddfwriaethol Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd wedi cael ei sefydlu er mwyn helpu i ddatblygu Bil a fydd yn diwygio systemau a gwasanaethau digartrefedd yng Nghymru yn sylfaenol er mwyn rhoi diwedd ar ddigartrefedd. Mae'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr lefel uchel o feysydd polisi Llywodraeth Cymru fel Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol, Diogelwch Cymunedol, Addysg a Chydraddoldebau. Nod y Bwrdd hwn yw meithrin a llywio diwylliant o gydgyhyrchu a gwaith partneriaeth ledled Cymru er mwyn sicrhau bod atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn cael ei ystyried yn fater gwasanaethau cyhoeddus, yn hytrach dim ond yn 'fater tai'.

Mae'r [Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd](#) (y Bwrdd Cynghori) yn gyfrifol am roi cyngor i Lywodraeth Cymru a phartneriaid ar yr ymateb polisi trawslywodraethol i atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd. Felly, mae'n chwarae rôl allweddol wrth oruchwylio a llywio'r broses o weithredu'r Cynllun Gweithredu.

Mae gan y Bwrdd Cynghori nifer o is-grwpiau hefyd sy'n gyfrifol am roi cyngor ar weithredu rhai o gamau penodol y Cynllun Gweithredu. Un o'r rhain fydd Grŵp Cynhwysiant Iechyd Strategol newydd. Bydd yn gyfrifol am gytuno ar raglen waith flynyddol er mwyn helpu i gydlynu gwasanaethau iechyd y cyhoedd a gofal iechyd yn strategol, gan gynnwys gofal sylfaenol er mwyn lleihau anghydraddoldebau a gwella canlyniadau i boblogaethau iechyd cynhwysiant yng Nghymru.

Cydweithio

Ym mis Tachwedd 2021, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd er mwyn cydgynhyrchu'r Fframwaith Canlyniadau newydd. Ymhlith aelodau'r grŵp mae rhanddeiliaid allanol allweddol (Prifysgol Caerdydd, Cymorth

Cymru, Centre for Homelessness Impact, cynrychiolwyr awdurdodau lleol, Darparwyr Gwasanaeth, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Tai Pawb a Shelter Cymru), sydd wedi cydweithio i ddarparu cyngor arbenigol. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn is-grŵp o'r Bwrdd Cyngori.

Ers iddo gael ei sefydlu, mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi bod yn fforwm i aelodau drafod a llywio'r canlyniadau hirdymor i'w hanelu atynt ar gyfer pobl Cymru. Mae'r ystyriaeth hon wedi cael ei llywio gan y themâu allweddol, yr egwyddorion polisi a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt - fel y cânt eu diffinio yn y [Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd](#) - sydd eu hangen ar draws gwasanaethau digartrefedd a thai, y trydydd sector a gwasanaethau cyhoeddus yn ehangach yng Nghymru er mwyn atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd.

Yn gyfochrog â hyn, mae'r canlyniadau arfaethedig manwl wedi cael eu profi â dau is-grŵp Gorchwyl a Gorffen arall sydd hefyd yn adrodd i'r Bwrdd Cyngori:

- Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ailgartrefu Cyflym, sy'n cynghori ac yn cynorthwyo swyddogion Llywodraeth Cymru i gyflawni'r broses bontio genedlaethol i ddull Ailgartrefu Cyflym o ddarparu gwasanaethau digartrefedd, wedi rhoi cyngor ar ddatblygu Canlyniad Strategol 2: Byrhoedlog
- Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweithlu, sy'n canolbwyntio ar gynllun gwaith y cytunwyd arno sy'n amlinellu pwysau uniongyrchol ar y gweithlu a chanlyniadau tymor hwy i'r gweithlu, wedi rhoi cyngor ar ddatblygu Canlyniad Strategol 4: Y gweithlu

Wrth ddatblygu'r Fframwaith Canlyniadau, cyfeiriwyd at [Fframwaith SHARE](#) y Centre for Homelessness Impact sy'n cynnig gweledigaeth gyffredin sy'n nodi meysydd gweithredu, nodau a dangosyddion a ddefnyddir i fesur y cynnydd a wneir tuag at gyflawni pob nod a'r weledigaeth o roi diwedd ar ddigartrefedd.

Wrth ddatblygu'r Fframwaith Canlyniadau, rydym hefyd wedi defnyddio arbenigedd Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru sydd wedi cynnal adolygiad manwl o'r dangosyddion arfaethedig. Ystyriwyd y ffynonellau data sydd ar gael ar hyn o bryd ac ymarferoldeb casgliadau data yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod y 'dangosyddion data' arfaethedig yn llywio ac yn mesur cynnydd yn erbyn pob canlyniad manwl yn gywir.

Cyfranogiad

Ni fydd y Fframwaith Canlyniadau ei hun yn arwain yn uniongyrchol at newidiadau i'r gwasanaethau tai a digartrefedd a ddarperir yng Nghymru. Fodd bynnag, bydd yn adnodd pwysig i fesur cynnydd lefel uchel tuag at atal ac, yn y pen draw, roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Felly, bydd yn fecanwaith pwysig i lywio'r cynnydd hwn a gallai ddylanwadu ar newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir neu ddulliau polisi o ganlyniad i hynny.

Fel y nodwyd uchod, mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi darparu arbenigedd er mwyn cydgynhyrchu'r Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd.

Rydym yn cynnal ymgynghoriad 12 wythnos ar y Fframwaith Canlyniadau o fis Mehefin 2023 a byddwn yn defnyddio adborth er mwyn helpu i ddatblygu'r Fframwaith Canlyniadau terfynol a gyhoeddir yn ddiweddarach yn 2023.

Er bod y Fframwaith Canlyniadau wedi cael ei gydgynhyrchu â Grŵp Gorchwyl a Gorffen, bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith ymgysylltu ategol yn ystod y cyfnod ymgynghori, yn seiliedig ar gwestiynau allweddol a nodir yn yr ymgynghoriad.

O ystyried natur dechnegol y Fframwaith Canlyniadau, bydd y digwyddiadau ymgysylltu hyn yn gyfle i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddiben allweddol y Fframwaith a'i ddefnydd yn y dyfodol, yn ogystal â chasglu adborth penodol am y canlyniadau strategol arfaethedig, y canlyniadau manwl a'r dangosyddion data ategol.

Bydd y gweithgarwch ymgysylltu yn targedu partneriaid allweddol fel awdurdodau lleol, sefydliadau yn y trydydd sector, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, a gwasanaethau cyhoeddus ehangach, yn ogystal â phobl sydd â phrofiad o ddigartrefedd.

Ymhellach, ochr yn ochr â datblygu'r Fframwaith Canlyniadau, mae swyddogion hefyd wedi diweddarau'r fframwaith canlyniadau ar gyfer y Grant Cymorth Tai i'w weithredu o fis Ebrill 2023. Cafodd y Grant Cymorth Tai ei gyflwyno ym mis Ebrill 2019. Diben cyffredinol y grant yw atal digartrefedd a chynorthwyo pobl i feithrin y gallu, yr annibyniaeth, y sgiliau a'r hyder i ddod o hyd i gartref sefydlog ac addas a/neu aros ynddo a dyma brif grant Llywodraeth Cymru ar gyfer atal digartrefedd.

Mae Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai yn adnodd gweithredol i fesur effeithiolrwydd rhaglen grant ac mae'n is-set o'r Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd ehangach. Mae Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai yn is-set o'r Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd ehangach. Datblgwyd y fframwaith diweddaraf mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol sy'n gomisiynwyr, yn ddarparwyr ac yn weithwyr rheng flaen o fewn gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai.

Yn ystod hydref 2022, cynhaliodd Llywodraeth Cymru bedwar digwyddiad ymgysylltu rhithwir â chynrychiolwyr awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau tai a digartrefedd ynghylch Fframwaith Canlyniadau arfaethedig newydd y Grant Cymorth Tai. Cymerodd cyfanswm o 190 o randdeiliaid ran yn y digwyddiadau hyn. Ar ddechrau mis Tachwedd 2022, cynhaliodd Llywodraeth Cymru hefyd sesiwn drafod gydag awdurdodau lleol a darparwyr cymorth sy'n treialu drafft cyntaf y Fframwaith Canlyniadau.

Defnyddiwyd adborth o'r digwyddiadau hyn a'r peilot er mwyn helpu i lunio fersiwn derfynol y fframwaith canlyniadau newydd, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2023 cyn iddo gael ei roi ar waith ym mis Ebrill 2023. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllawiau ategol ym mis Ionawr 2023 hefyd a chynhaliodd bedwar digwyddiad hyfforddi rhithwir ym mis Chwefror 2023 a mis Mawrth 2023 i staff awdurdodau lleol a darparwyr cymorth. Cymerodd cyfanswm o 1,700 o unigolion ran yn y digwyddiadau hyn.

Effaith

Nid oes Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn bodoli ar hyn o bryd. Cymru yw'r genedl gyntaf yn y DU hefyd i ddatblygu Fframwaith Canlyniadau ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd.

Mae datblygu Fframwaith Canlyniadau newydd yn un o Gamau Gweithredu allweddol (Cam Gweithredu 13) y Cynllun Gweithredu, a chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Gweithredu ei hun cyn iddo gael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2021. Ni fu unrhyw wrthwynebiad i lunio Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd newydd. Cafodd y Fframwaith Canlyniadau ei gydgyhyrchu â Grŵp Gorchwyl a Gorffen (gweler yr adran 'Cydweithio') er mwyn gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru drwy nodi'r canlyniadau hirdymor i anelu atynt a dangos cynnydd tuag at gyflawni'r canlyniadau hyn dros amser.

Bydd angen i'r Fframwaith fod yn hyblyg a bydd yn esblygu dros amser er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben o hyd. Yn hyn o beth, caiff y Fframwaith ei adolygu ar ôl y diwygiadau sydd ar ddod i bolisi a deddfwriaeth yn unol ag ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu 2021-2026, er mwyn sicrhau bod ein Canlyniadau yn parhau i fod yn berthnasol er mwyn dangos ein cynnydd tuag at roi diwedd ar ddigartrefedd ledled Cymru. Yna caiff ei adolygu bob tair blynedd wedi hynny.

O ystyried pwysigrwydd y Fframwaith Canlyniadau o ran mesur a monitro cynnydd dros amser wrth weithredu'r camau a nodir yn y Cynllun Gweithredu, prin yw'r dadleuon yn erbyn rhoi Fframwaith newydd ar waith. Y brif ystyriaeth yw'r goblygiadau o ran adnoddau i awdurdodau lleol a darparwyr cymorth tai (ac, yn eu tro, Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru) a fydd yn casglu data newydd dros amser lle mae bylchau yn y data ar hyn o bryd.

Mae'r ystyriaethau hyn yn rhan o waith parhaus â chydweithwyr polisi a chydweithwyr yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi i lywio datblygiadau a gwelliannau i gasgliadau data statudol a gwybodaeth reoli fisol sydd, yn eu tro, yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol ynghylch y goblygiadau o ran adnoddau.

Cynhelir ymgynghoriad ar y Fframwaith Canlyniadau arfaethedig hefyd er mwyn ei ddatblygu ymhellach cyn i'r fersiwn derfynol gael ei llunio yn ddiweddarach yn 2023. Caiff yr ymgynghoriad hwn ei ategu gan ddiwyddiadau ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid (gweler yr adran 'Cyfranogiad').

Caiff adnoddau eu hystyried ymhellach yn ystod y cyfnod ymgynghori. Ymhellach, bydd sawl dangosydd data a nodir yn y Fframwaith Canlyniadau yn ddangosyddion i anelu atynt a bwriedir iddynt lywio datblygiadau yn y dyfodol i gasgliadau data.

Costau ac Arbedion

Ni fydd y gwaith o gynhyrchu Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd newydd a'i roi ar waith yn creu costau uniongyrchol. Caiff y gwaith o'i ddatblygu a'i weithredu yn y dyfodol ei oruchwylio gan swyddogion Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio adnoddau staffio presennol. Nid arweiniodd y gwaith cydgynhyrchu â rhanddeiliaid allanol at gostau uniongyrchol ychwaith, am fod y rhanddeiliaid hyn eisoes yn hyrwyddo gwaith traws-bartneriaeth er mwyn atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru drwy eu meysydd gwaith eu hunain a thrwy eu cyfraniad mewn meysydd datblygu polisi amrywiol.

Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd costau anuniongyrchol yn y dyfodol agos yn gysylltiedig â newidiadau posibl i systemau TG a mecanweithiau cofnodi ac adrodd data awdurdodau lleol a darparwyr cymorth tai a digartrefedd. Bydd hyn yn ymwneud â chasglu data newydd neu fanylach yn y dyfodol agos, er mwyn casglu 'dangosyddion data' yn erbyn y canlyniadau arfaethedig sydd yn y Fframwaith ehangach.

Nid yw union gostau'r newidiadau hyn yn hysbys eto ac mae'n debygol y cânt eu cynnwys o fewn trefniadau'r rhanddeiliaid eu hunain ar gyfer diweddarau eu systemau TG yn ysbeidiol. Mae'n debygol y daw'r goblygiadau costau hyn i'r amlwg drwy'r ymgynghoriad ar y Fframwaith Canlyniadau, a thrwy waith cyfochrog a arweinir gan staff y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi er mwyn llywio gwelliannau i gasgliadau data blynyddol a misol ar ddigartrefedd.

Mae ein hymrwymiad i ganolbwyntio ar atal digartrefedd, ac yn enwedig atal yn gynnar, yn seiliedig ar ddull 'buddsoddi i arbed', sy'n golygu y gellir osgoi gwariant/ymyriadau aciwt mwy costus yn nes ymlaen. Mewn [adroddiad](#) a gyhoeddwyd gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd ym mis Mawrth 2020, nodwyd y gall y gost o fynd i'r afael ag argyfyngau fod yn sylweddol. Canfu un amcangyfrif fod un person sy'n cysgu allan am 12 mis yn costio mwy nag £20,000 ond bod ymyriad llwyddiannus yn costio tua £1,400¹. Dylid nodi bod yr amcangyfrif hwn yn seiliedig ar ymchwil a wnaed yn 2015, cyn y pandemig, ac na fyddai'n adlewyrchu newidiadau i gostau cyfartalog yn seiliedig ar ddata mwy diweddar.

Mae [adroddiad](#) Archwilio Cymru, 'Cysgu Allan yng Nghymru – Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i Neb' a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2020 yn amcangyfrif bod pob cyfnod o gysgu allan yn costio £53,082 i bwrs y wlad. Mae hefyd yn nodi bod sector cyhoeddus Cymru yn gwario hyd at £209 miliwn yn adweithio i gysgu allan ond heb ei ddatrys.

Gwaith ymchwil blaenorol ar effaith y Grant Cymorth Tai

Mae adroddiad a luniwyd ar y cyd gan Cymorth Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd hefyd yn darparu tystiolaeth i ddangos sut y gall buddsoddi mewn gwasanaethau

¹ Pleace, N. (2015) At what cost? An estimation of the financial cost of single homelessness in the UK. Llundain: Crisis

digartrefedd a chymorth tai trwy grant, fel y Grant Cymorth Tai, sy'n grant ataliol, leihau pwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill.

Cynhaliodd Cymorth Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd waith [ymchwil](#) ar y cyd i effaith gymdeithasol ac ariannol y Grant Cymorth Tai; a gafodd ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2020. O ran yr effaith ariannol, amcangyfrifwyd bod y Grant yn arbed swm blynyddol gros o £300.4m i'r wasanaethau cyhoeddus, neu swm blynyddol net o £176.7m (wrth ystyried y gwariant blynyddol ar y Grant Cymorth Tai ar y pryd). Mae hyn yn golygu bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn arbed swm net o tua £1.40 am bob £1 o gyllid ar gyfer y Grant Cymorth Tai Yn ogystal, amcangyfrifir bod gwasanaethau iechyd meddwl yn arbed swm net o £5.20 am bob £1 o gyllid y Grant Cymorth Tai.

Awgryma'r gwaith ymchwil fod gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yn sicrhau arbedion i'r gwasanaethau iechyd sy'n cynnwys arbedion gros blynyddol amcangyfrifedig o:

- £138.7m i'r gwasanaethau iechyd, gyda'r arbedion i'r gwasanaethau iechyd yn cyfrif am 46% o gyfanswm buddiannau gros y grant;
- £97.9m i'r gwasanaethau iechyd meddwl;
- £14.4m i gymorth ar gyfer menywod sy'n dioddef cam-drin domestig;
- £10.6m i gymorth ar gyfer y rhai sy'n camddefnyddio cyffuriau ac alcohol.

Mae'r gwaith ymchwil yn amcangyfrif bod arbedion i'r sector Gofal Cymdeithasol (£120.6m) a'r sector cyfiawnder troseddol (dros £47.9m) hefyd. Yn ogystal, mae'r gwaith ymchwil yn nodi nifer o ganlyniadau pwysig sydd heb eu costio h.y. gwelliant cyffredinol yn iechyd pobl (neu iechyd canfyddedig), ansawdd bywyd gwell i unigolion ac, felly, mae iechyd a llesiant unigolion yn gwella'n sylweddol wrth iddynt gael cymorth. Felly, nid yn unig y mae'r Grant Cymorth Tai yn sicrhau arbedion cost amcangyfrifedig i'r gwasanaethau cyhoeddus ehangach, mae hefyd yn galluogi unigolion i ystyried eu bod nhw eu hunain a'u bywydau yn fwy gwerthfawr.

Casgliad

Sut mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi helpu i'w ddatblygu?

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Strategol Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd wedi bod yn hanfodol wrth gydgyhyrchu'r Fframwaith Canlyniadau newydd. Ymhlith aelodau'r grŵp mae rhanddeiliaid allanol allweddol (Prifysgol Caerdydd, Cymorth Cymru, Centre for Homelessness Impact, cynrychiolwyr awdurdodau lleol, Darparwyr Gwasanaeth, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Tai Pawb a Shelter Cymru), sydd wedi cydweithio i ddarparu cyngor arbenigol.

Bydd ein hymgyngoriad yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael cyfle i roi eu barn ar y Fframwaith Canlyniadau drafft. Rydym hefyd yn bwriadu cynnal digwyddiadau ymgysylltu a fydd yn llywio ein syniadau cyn i'r Fframwaith Canlyniadau terfynol gael ei lunio. Byddwn yn cydweithio â phartneriaid allweddol fel Cymorth Cymru ac yn defnyddio eu rhwydweithiau/fforymau presennol i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac, o bosibl, i ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad o ddigartrefedd a gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai. Mae menter Arbenigwyr trwy Brofiad Cymorth Cymru yn rhoi cyfle i bobl â phrofiad uniongyrchol rannu eu barn a'u profiadau er mwyn dylanwadu ar bolisi ac ymarfer yng Nghymru.

Pa effeithiau, yn gadarnhaol ac yn negyddol, fu'r rhai mwyaf arwyddocaol?

Diben y Fframwaith Canlyniadau yw gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru drwy nodi'r canlyniadau hirdymor i anelu atynt a dangos cynnydd tuag at gyflawni'r canlyniadau hyn dros amser. Cafodd ei gynllunio i ddangos effaith y camau gweithredu lefel uchel a nodwyd yn ein Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd a'r cynnydd yn eu herbyn, ac i gynyddu atebolrwydd pob rhanddeiliad sydd â rôl i'w chwarae yn y gwaith o roi diwedd ar ddigartrefedd.

Cymru yw'r genedl gyntaf yn y DU i ddatblygu Fframwaith Canlyniadau. Mae'n bosibl na fydd yn newid ein cyfeiriad polisi yn uniongyrchol yn y tymor byr, ond bydd yn ein helpu i fonitro ein cynnydd lefel uchel yn erbyn y canlyniadau. Bydd yn darparu naratif dealladwy clir o ba gamau gweithredu sy'n llwyddiannus a ble y gall fod angen blaenoriaethu adnoddau.

Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,
- yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol sicrhau bod penderfyniadau'n cyfrannu cymaint â phosibl at y nodau llesiant. Mae'r Fframwaith Canlyniadau yn ceisio cyfrannu at y nodau hyn (yn benodol, Cymru iachach, Cymru gyfartal, Cymru lewyrchus a Chymru o gymunedau cydlynus) drwy osod cyfeiriad strategol clir ar gyfer atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd i wasanaethau cyhoeddus, tai a darparwyr cymorth yng Nghymru. Bydd y Fframwaith Canlyniadau yn dangos effaith y camau gweithredu a nodwyd yn ein Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd a'r cynnydd yn eu herbyn, ac yn cynyddu atebolrwydd pob rhanddeiliad sydd â rôl i'w chwarae yn y gwaith o roi diwedd ar ddigartrefedd.

Gallai'r gofyniad i awdurdodau lleol a darparwyr yn y trydydd sector gasglu data fel tystiolaeth ar gyfer dangosyddion yn y Fframwaith Canlyniadau fod yn effaith negyddol bosibl oherwydd mae'n debygol y bydd yn arwain at gasgliadau data ychwanegol a fydd yn creu goblygiadau o ran adnoddau. Bydd ein hymgyngoriad a'n digwyddiadau ymgysylltu yn amlygu unrhyw bryderon penodol sydd gan awdurdodau lleol a darparwyr yn y trydydd sector. Er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effeithiau/risgiau, mae ein cydweithwyr yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn arwain gwaith gydag awdurdodau lleol i ystyried sut y gellir gwella'r ffyrdd o gasglu data yn y dyfodol, gan gydbwysu'r angen i leihau'r baich ar ddarparwyr data allweddol, hynny yw, awdurdodau lleol.

Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo a phan ddaw i ben?

Cynlluniwyd y Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd i ddangos effaith y camau gweithredu a nodwyd yn ein Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd a'r cynnydd yn eu herbyn, ac i gynyddu atebolrwydd pob rhanddeiliad sydd â rôl i'w chwarae yn y gwaith o roi diwedd ar ddigartrefedd.

Bydd y Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd hwn yn darparu naratif clir ar y meysydd lle rydym wedi gwneud cynnydd tuag at gyflawni'r canlyniadau hirdymor a nodwyd. Felly, bydd yn llywio cynigion polisi yn y dyfodol ac yn ein galluogi i nodi a mynd i'r afael â meysydd lle na chaiff unrhyw ddata eu casglu ar hyn o bryd.

Fel y cyfryw, bydd y Fframwaith Canlyniadau yn parhau i esblygu dros amser, er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol ac yn ymateb i'r amgylchedd rydym yn gweithredu ynddo a'r data sydd ar gael. Caiff y Fframwaith Canlyniadau ei adolygu ar ôl y diwygiadau sydd ar ddod i bolisi a deddfwriaeth yn unol ag ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu 2021-2026, er mwyn sicrhau bod ein canlyniadau yn parhau i fod yn berthnasol er mwyn dangos ein cynnydd tuag at roi diwedd ar ddigartrefedd ledled Cymru. Yna caiff ei adolygu bob tair blynedd wedi hynny.

Datganiad

Rwyf yn fodlon bod effaith y cam gweithredu arfaethedig wedi'i hasesu a'i chofnodi'n ddigonol.

Enw'r Uwch-swyddog Cyfrifol / y Dirprwy Gyfarwyddwr: Sarah Rhodes

Adran: Tai ac Adfywio

Dyddiad: 2 Mehefin 2023

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

OGI © Crown copyright WG45289